

## Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Fedi 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Jim Boughton , Terry Bullock, Meirion Owen, Janet Charlton, Marion Bettenev, Siân Godbert, Cyng Sir Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc. Ymddiheuriadau, Gareth Parry, Karen Pugh.

Datgan diddordeb, Datganwyd diddordeb yng nghofnod [1.7c] gan Siân Godbert. Penderfynwyd nad oedd yn rhagfarnu ar y mater dan sylw.

#### (1)Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol.

#### [1.1] Cais i gynnal Pont Droed Gorsaf Drên Betws-y-coed

Eglurodd y Cyng Elisabeth Roberts nad oedd Arriva yn bwriadu gwneud dim gwaith cynhaliath hyd nes 2019. Cytunodd Y Cyng E Roberts i wneud cais i gael peth gwaith wedi ei wneud yn y cyfamser.

#### [1.2] Canghenni Coed Eiddew/Llwybr o Ffordd yr Orsaf i Stablau'r Royal Oak

Nodwyd bod y mater yn parhau.

#### [1.3] Materion Priffyrdd/Llinellau Dwbl Melyn

Priffordd yr A5 ger Glenwood. Cytunodd y Cyng Terry Bullock drafod y cynigion gyda phreswylwyr cyfagos ac adrodd yn ôl i'r Cyngor

#### [1.4] Lleoliad i'r Defiliberator

Nodwyd bod y feddygfa wedi cytuno i leoliad y defliberator . Y clerch i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans i geisio arweiniad ynglŷn â'r math fyddai 'n addas ar gyfer ei osod ar wal allan yr adeilad.

#### [1.5] Creu Man Chwarae yng Nghae Llan

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod y mater yn parhau.

#### [1.6] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn parhau mewn cysylltiad â'r hanesydd lleol Mr Glyn Jones ynglŷn â'r mater.

#### [1.7] Goleuadau Ychwanegol/ Neuadd Goffa

Cyfeiriodd y clerch at lythyr oddiwrth Mrs Marian Owen yn amlinellu'r costau ar gyfer goleuadau ychwanegol. Gan nodi'r gost a'r ansicrwydd ynglŷn â'r grant, penderfynwyd ei drafod eto yn y cyfarfod nesaf. Yn y cyfamser cytunodd y Cyng E Roberts wneud ymholiadau gyda Cyngor 'r Sir ynglŷn â phosibilrwydd o grant.

#### [1.8] Cae Chwarae Pentre' Du

[a] Cyfeiriodd y Cyng Terry Bullock at gyflwr gwael y byrddau picnic yn y cae. Cytunodd y Cyng Jim Boughton i anfon manylion dodfren plastig ymlaen i'r clerch.

[b] Nodwyd yr ateb gan y Cyngor Sir nad oedd angen sylw i'r bylchau rhwng y matiau ar y cae.

Y brif agenda

[1.9] Materion Cynllunio

[a] Adeiladu estyniad cefn. Y Bwthyn, Betws-y-Coed.

[b] Adeiladu estyniad cefn deulawr. 7 Rhes Gethin, Betws-y-Coed

[c] Adnewyddu a newid defnydd tollborth segur yn llety i bysgotwyr. Pont-yr-Afanc, Betws-y-Coed. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r tri chais uchod.

[2]) Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Gorffennaf/Awst 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol -Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Gorffennaf/Awst 2015.

[2.1] Creu Swigod/Cae Llan

Gan nodi bod y cae yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer creu swigod, penderfynwyd codi tal o £300.00 y flwyddyn yn daladwy i'r Cyngor o ddechrau Hydref 2015. Yr amodau canlynol hefyd i fodoli ;

[a] Y gweithgarwch swigod i gael ei gadw ymhell o unrhyw achlysur ar y cae.

[b] Dim gweithgarwch swigod i gymryd lle ar y cae peldroed tra bydd y cae yn cael ei baratoi ar gyfer gem peldroed.

[c] Rhaid i'r bwced yn cynnwys yr hylif fod a gorchudd i atal gorlifo ar y glaswellt.

[2.2] Materion Amrywiol

Y clerch i clerch i ddilyn ymlaen a'r canlynol;

[a] Slabiau anwastad llwybr Cae Llan/Crefftwaith gwael i atgyweiriad Pont=-y-Pair

[b] Mainc wedi torri yn Orsaf Bws ar yr A5 Pentre' Du.

[c] Rheilen wedi torri ar y giât gyferbyn a'r Ganolfan Groeso yn Gae Llan

[d] Gwastraff wedi ei daflu ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn parhau heb ei glirio.

[e] Trefniadau mynediad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r toiledau Ffordd yr Orsaf angen sylw.

[2.3] Nodwyd y wybodaeth ganlynol

[a] Cyfarwyddiad Draft Cynulliad Cymru i Ddemocratiaeth Leol a Chomisiwn Ffiniau i Gymru.

[B] Rali Cambrian Hydref 17eg 2015-10-05

[c] Gweithdy Hyfforddiant ar Gynllunio, Plas Tan-y-Bwlch 21ain Fedi

[d] Parc Cenedlaethol Cymru, Gwarchodfa Statws Awyr Dywyll.

[e] Gorchymyn Gwarchod Coed, Tir i'r Dwyrain o Ffos Noddun, Betws-y-Coed.

Cadeirydd \_\_\_\_\_